

Adran Drwyddedu  
Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfeydd Dinesig  
Heol Holltwn  
Y Barri  
CF63 4RU

Ffôn: 01446 709105 Ffacs:01446 709808  
E-bost: licensing@valeofglamorgan.gov.uk  
Gwefan: www.bromorgannwg.gov.uk



## CAIS I GYMERADWYO LLEOLIAD SECIWLAR AR GYFER GWEINYDDU PRIODASAU SIFIL A CHOFRESTRU PARTNERIAETHAU SIFIL

Deddf Briodas 1949 a26(1)(bb) a Deddf Partneriaeth Sifil a6(3a)(a)

<b>1. YMGEISYDD - Rhaid iddo fod yn berchennog neu'n ymddiriedolwr i'r safle (Os yw hwn yn gwmni cyfyngedig, rhwch fanylion y swyddfa gofrestredig)</b>	
a) Enw llawn:	Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall:
b) Cyfeiriad	Cod Post:
c) Rhif Ffôn:	Cartref: Rhif ffôn symudol:
ch) E-bost:	
d) Swydd yn y Sefydliad:	Perchennog <input type="checkbox"/> Ymddiriedolwr <input type="checkbox"/>
dd) Ai'r person hwn yw meddiannydd y safle?	Ie <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/> (Os na, cwblhewch adran 2)
e) Os yw'r Safle hwn wedi'i gymeradwyo o'r blaen dan y Ddeddfwriaeth hon, a fu unrhyw newid i'r Caniatâd Cynllunio ers eich Cymeradwyaeth ddiwethaf? Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/> Os do, amgaewch gopi o'ch Caniatâd Cynllunio.	
<b>Os ydych wedi nodi manylion y swyddfa gofrestredig uchod, rhwch fanylion prif gyfeiriad masnachu'r cwmni isod, os yw'n berthnasol.</b>	
f) Enw	
ff) Cyfeiriad	Cod post:
g) Ffôn	
ng) E-bost:	

## 2. MEDDIANNYDD SAFLE (Os yw'n wahanol i'r ymgeisydd)

a) Enw:	
b) Cyfeiriad:	
	Cod Post:
c) Rhif Ffôn:	Cartref:
	Symudol:
ch) E-bost:	

## 3. SAFLEOEDD I'W CYMERADWYO

*\* Bydd yr 'enw' a roddir yn cael ei argraffu ar dystysgrif priodas /partneriaeth sifil y cyplau*

a) Enw:	
b) Cyfeiriad:	
	Cod Post:
c) Rhif Ffôn:	Cartref:
	Symudol:
ch) E-bost:	
dd) Gwefan:	
e) Natur y Safle, h.y. gwesty:	
g) A oes gan y safle y budd o unrhyw drwydded a roddwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes	
h) Nodwch yr ystafelloedd yr hoffech eu cymeradwyo, a'r nifer fwyaf o bobl yr hoffech iddynt feddiannu pob ystafell, gan ystyried unrhyw Asesiad Risg Tân perthnasol. Sicrhewch fod pob ystafell yn cael ei nodi'n amlwg ar gynllun y Safle.	

Enw'r Ystafell	Uchafswm Meddiannaeth

Os oes angen, defnyddiwch dudalen barhad.

<b>4. PWY SY’N GYFRIFOL</b>	
<b>Mae'r rhain yn bersonau ar y safle a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'ch Cymeradwyaeth</b>	
<b>UN</b>	
a) Enw:	
b) Cyfeiriad:	
	<b>Cod Post:</b>
c) Rhif Ffôn:	<b>Cartref:</b>
	<b>Symudol:</b>
ch) E-bost:	
d) Swydd:	
<b>DAU</b>	
a) Enw:	
b) Cyfeiriad:	
	<b>Cod Post:</b>
c) Rhif Ffôn:	<b>Cartref:</b>
	<b>Symudol:</b>
ch) E-bost:	
d) Swydd:	

Os oes angen, defnyddiwch dudalen barhad.

<b>5. Rwy'n deall y canlynol:</b>	
1.	Bydd y safle yn cael ei archwilio ar gyfer addasrwydd cyn rhoi cymeradwyaeth ac, os bydd y cais hwn yn llwyddiannus, gall fod yn destun archwiliad dilynol
2.	Rhoddir hysbysiad cyhoeddus o'r cais drwy hysbyseb ar wefan yr Awdurdod hwn, gyda chyfnod o dair wythnos ar gyfer gwrthwynebiadau
3.	Bydd cymeradwyaeth, os caiff ei rhoi, am gyfnod o dair blynedd, a bydd yn destun dirymiad.
4.	Bydd angen i'r awdurdod fod yn fodlon bod darpariaeth iechyd a diogelwch briodol a diogelwch tân ar waith. Efallai y bydd Adran Iechyd yr Amgylchedd a/neu Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru am gynnal eu harolygiadau eu hunain ar y Safle.

<b>6. Rwy'n datgan y canlynol:</b>	
1.	Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth a geir yn y ffurflen hon ac yn Atodiadau A ac C
2.	Nid yw'r Safle yn fangre grefyddol
3.	Nid yw'r safle yn Swyddfa Gofrestru (neu, os oes swyddfa gofrestru wedi'i lleoli ar y safle nad yw'n ystafell sy'n destun y cais hwn); a
4.	Rwyf wedi ymgynghori â'r awdurdod cynllunio ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio ac atodaf dystiolaeth ei fod yn fodlon y gellir defnyddio'r safle ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil.
5.	Os rhoddir cymeradwyaeth, <ol style="list-style-type: none"> <li>i. yn amodol ar unrhyw eithriadau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, bydd y safle ar gael yn rheolaidd at ddefnydd y cyhoedd er mwyn gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil; a</li> <li>ii. Byddaf yn cydymffurfio â'r amodau safonol (Atodiad C) ac unrhyw amodau pellach y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn rhesymol eu hatodi i'r gymeradwyaeth.</li> </ol>

<b>7. Gohebiaeth</b>	
I ble hoffech chi i ohebiaeth mewn perthynas â'r cais hwn gael ei hanfon?	
Ymgeisydd	<input type="checkbox"/>
Cyfeiriad Masnachu	<input type="checkbox"/>
Meddiannydd	<input type="checkbox"/>
Safle	<input type="checkbox"/>

<b>8. Rhestr Wirio</b>	
1.	Rwyf wedi cyflwyno 4 copi o gynllun, gan roi manylion clir am yr holl ystafelloedd y gofynnwyd amdanynt i'w cymeradwyo yn y safle.
2.	Rwyf wedi amgáu'r ffi (na ellir ei dychwelyd) ( <i>Sieciau'n daladwy i 'Cyngor Bro Morgannwg'</i> ) <i>Gwiriwch swm y ffi ar <a href="http://www.bromorgannwg.gov.uk">www.bromorgannwg.gov.uk</a></i>
3.	Rwyf wedi amgáu copi o'r Caniatâd Cynllunio Safle (Gofynnol am Grant, neu os bu newid ers eich adnewyddu diwethaf)

<b>Llofnod:</b>	
Printiwch Eich Enw:	
Llofnod:	

**Dychwelwch y cais wedi'i gwblhau i'r Adran Drwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn. Y Barri, CF63 4RU.**  
**ATODIAD A- Gofynion cyn Rhoi Cymeradwyaeth**

Rhaid i'r safle fodloni'r gofynion safonol canlynol yn y Rheoliadau:

1. O ystyried ei brif ddefnydd, ei sefyllfa, ei adeiladwaith a'i gyflwr, rhaid i'r safle, ym marn yr awdurdod, fod yn lleoliad gweddus ac urddasol ar gyfer y seremonïau.
2. Rhaid i'r safle fod ar gael yn rheolaidd at ddefnydd y cyhoedd er mwyn gweinyddu priodasau a chofrestru (ffurfio) partneriaethau sifil.
3. Rhaid i'r safle fod â'r rhagofalon diogelwch tân a allai fod yn rhesymol ofynnol gan yr awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub, ac unrhyw ddarpariaeth resymol arall ar gyfer iechyd a diogelwch personau a gyflogir ar y safle neu sy'n ymweld ag e fel y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol.
4. Rhaid i'r safle beidio â bod yn swyddfa gofrestru, ond nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i safle lle mae swyddfa gofrestru wedi'i lleoli ar yr amod nad yw'r ystafell sy'n destun cymeradwyaeth yr un ystafell â'r ystafell sy'n swyddfa gofrestru.
5. Rhaid bod modd nodi'r ystafell neu'r ystafelloedd lle cynhelir y seremonïau (priodas neu bartneriaeth sifil) os rhoddir cymeradwyaeth, drwy ddisgrifiad yn rhan benodol o'r safle.

**ATODIAD C- Amodau Safonol sydd ynghlwm wrth roi Cymeradwyaeth**

1. Rhaid i ddeiliad y gymeradwyaeth sicrhau bod unigolyn sydd â chyfrifoldeb bob amser am sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau hyn ("y person cyfrifol") a bod galwedigaeth, statws, safle cyfrifoldeb y person cyfrifol mewn perthynas â'r safle, neu ffactorau eraill (ei "gymhwyster"), yn dangos ei fod mewn sefyllfa i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau hyn.
2. Rhaid i'r person cyfrifol neu, yn ei absenoldeb, dirprwy â chymwysterau priodol a benodwyd ganddo, fod ar gael ar y safle am o leiaf awr cyn a thrwy bob un o'r seremonïau.
3. Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod—
  - (a) o'i enw a'i gyfeiriad yn syth ar ôl iddo ddod yn ddeiliad cymeradwyaeth o dan reoliad 7(2); ac
  - (b) o enw, cyfeiriad a chymhwyster y person cyfrifol yn union ar ôl penodi person cyfrifol newydd.
4. Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod ar unwaith am unrhyw newid i unrhyw un neu fwy o'r canlynol—
  - (a) cynllun y safle, fel y dangosir yn y cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais a gymeradwywyd, neu o ran defnydd y safle;
  - (b) enw neu gyfeiriad post llawn y safle cymeradwy;
  - (c) y disgrifiad o'r ystafell neu'r ystafelloedd y mae'r seremonïau i ddigwydd ynddi/ynddynt;
  - (ch) enw neu gyfeiriad deiliad y gymeradwyaeth; a
  - (d) enw, cyfeiriad neu gymhwyster y person cyfrifol.
5. Rhaid i'r safle cymeradwy fod ar gael ar bob adeg resymol i'w archwilio gan yr awdurdod.
6. Rhaid i hysbysiad addas sy'n datgan bod y safle wedi'i gymeradwyo ar gyfer y seremonïau, sy'n nodi'r ystafell y mae'r seremonïau i ddigwydd ynddi ac sy'n nodi cyfeiriadau i'r ystafell honno gael ei arddangos wrth bob mynedfa gyhoeddus i'r safle am awr cyn a thrwy gydol y seremonïau.
- 7.— (1) Ac eithrio fel y nodir isod, ni chaniateir gwerthu na bwyta/yfed bwyd na diod yn yr ystafell lle mae'r seremonïau'n digwydd am awr cyn neu yn ystod y seremonïau hynny.  
 (2) Caniateir yfed diodydd nad ydynt yn alcoholig cyn y seremonïau.
8. Rhaid i bob seremoni ddigwydd mewn ystafell a nodwyd fel un i'w defnyddio at y diben hwnnw ar y cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais a gymeradwywyd.
9. Rhaid i'r ystafell y mae'r seremonïau i ddigwydd ynddi fod ar wahân i unrhyw weithgaredd arall ar y safle ar y pryd.
10. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer y seremonïau a'u cynnwys fodloni cofrestrydd arolygol yr ardal o flaen llaw, neu awdurdod cofrestru'r ardal, yn ôl y digwydd, lle lleolir y safle cymeradwy.
- 11.—(1) Ni ddylai unrhyw seremoni a gynhelir ar safle cymeradwy fod yn grefyddol ei natur.  
 (2) Yn benodol, ni ddylai —
  - (a) gynnwys darnau o wasanaeth priodas grefyddol awdurdodedig neu o destunau crefyddol cysegredig;
  - (b) cael ei arwain gan weinidog yr efengyl neu arweinydd crefyddol arall;
  - (c) cynnwys defod grefyddol neu gyfres o ddefodau;
  - (ch) cynnwys emynau neu siantiau crefyddol eraill; neu

(d) gynnwys unrhyw fath o addoliad.

(3) Ond gall gynnwys darlleniadau, caneuon, neu gerddoriaeth sy'n cynnwys cyfeiriad achlysurol at dduw neu dduwdod mewn cyd-destun nad yw'n grefyddol yn ei hanfod.

(4) At y diben hwn, caiff unrhyw ddeunydd a ddefnyddir ar ffurf cyflwyniad i, mewn unrhyw egwyl rhwng rhannau, neu drwy ddod â'r seremoni i ben, gael ei drin fel rhan o'r seremoni.

**12.** Rhaid caniatáu mynediad cyhoeddus i unrhyw seremoni mewn safle cymeradwy yn ddi-dâl.

**13.** Gall unrhyw gyfeiriad at gymeradwyo safle ar unrhyw arwydd neu hysbysiad, neu ar unrhyw ddeunydd ysgrifennu neu gyhoeddiad, neu o fewn unrhyw hysbyseb ddatgan bod y safle wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod fel lleoliad ar gyfer priodas yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf 1949 \*ac ar gyfer ffurfio partneriaethau sifil dan adran 6(3A)(a) o Ddeddf 2004 ond ni ddylai ddatgan nac awgrymu unrhyw argymhelliad o'r safle na'i gyfleusterau gan yr awdurdod, y Cofrestrydd Cyffredinol neu unrhyw un o swyddogion neu gyflogeion y naill neu'r llall ohonynt.

**14.** Os bydd newid enw i'r safle cymeradwy yn digwydd ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif priodas neu'r ddogfen partneriaeth sifil, ond cyn seremoni, bydd hen enw'r safle cymeradwy fel y'i cofnodir ar y dystysgrif priodas neu'r ddogfen partneriaeth sifil yn parhau'n ddilys am ei hyd at ddibenion y seremoni honno.

### **Nodiadau ar y gofynion ar gyfer rhoi Cymeradwyaeth**

Sefydlwyd y gofynion ar gyfer safleoedd cymeradwy gan Reoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 a Rheoliadau Diwygio 2011 (y cyfeirir atynt yn y nodiadau hyn fel y Rheoliadau). Y rhain y mae'n rhaid i'r awdurdod eu cymhwyso wrth ystyried cais i gymeradwyo.

Rhaid cyflwyno'r ffi na ellir ei dychwelyd ar gyfer y cais hwn gyda'r cais i'r Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU.

Rhaid i'r cais gael ei wneud gan y perchennog neu'r ymddiriedolwr i'r safle. Pan gaiff ei wneud ar ran cwmni cyfyngedig, neu fusnes corfforedig arall, dylid cael datganiad ar wahân o enwau a chyfeiriadau'r holl gyfarwyddwyr.

### **Arweiniad gan y Cofrestrydd Cyffredinol:**

Wrth ystyried addasrwydd safle fel lleoliad, bydd yr awdurdod yn rhoi sylw dyledus i'r arweiniad canlynol gan y Cofrestrydd Cyffredinol:

1. Bwriad y gyfraith sy'n ymwneud â "safle cymeradwy" yw caniatáu i seremonïau gael eu cynnal yn rheolaidd mewn gwestai, plastai, neuaddau dinesig, safleoedd crefyddol a safleoedd tebyg heb beryglu difrifoldeb yr achlysur.
2. Diffinnir safle yn y Rheoliadau fel strwythur parhaol sy'n cynnwys o leiaf un ystafell, neu unrhyw gwch neu long sydd wedi'i hangori'n barhaol. Ni fydd safle nad yw o fewn ystyr y diffiniad hwn, megis yr awyr agored, pabell fach neu fawr, neu strwythur dros dro arall a'r rhan fwyaf o ddulliau o deithio, yn gymwys i'w gymeradwyo.
3. Rhaid i'r safle fod yn lleoliad parchus ac urddasol ar gyfer y seremonïau, y mae'n rhaid iddynt ddigwydd mewn rhan gwahanol o'r safle hwnnw y mae modd ei nodi. Byddai prif ddefnydd adeilad yn ei wneud yn anaddas pe bai'r defnydd hwnnw'n amharu ar unrhyw seremonïau neu'n dwyn anfri arnynt.
4. Ni ddylai'r safle fod mewn unrhyw ran o swyddfa gofrestru ar y cynllun a gyflwynwyd gan yr awdurdod ac a gymeradwywyd gan y Cofrestrydd Cyffredinol dan Ddeddf y Gwasanaeth Cofrestru 1953. Gellir cymeradwyo unrhyw ystafelloedd yn yr un safle â'r swyddfa gofrestru nad ydynt ar y cynllun hwn, e.e. siambr cyngor yn yr un neuadd y dref, ond ni ellir cymeradwyo ystafell mewn swyddfa gofrestru. Fodd bynnag, gall awdurdod bennu ei ffi am fynychu priodas neu bartneriaeth sifil ar safle cymeradwy ar yr un lefel â'r ffi ragnodedig am briodas neu bartneriaeth sifil mewn swyddfa gofrestru.
5. Bydd y gofyniad bod yn rhaid i'r safle fod ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd ei ddefnyddio yn atal tŷ preifat rhag cael ei gymeradwyo.

## **GWYBODAETH YCHWANEGOL**

### **ADNEWYDDU**

1. Mae'r broses adnewyddu yr un fath â'r broses gymeradwyo, ond dim ond pan fo llai na deuddeng mis ar ôl ar y gymeradwyaeth gyfredol y gellir cychwyn y broses adnewyddu. Bydd cais i adnewyddu a wneir o fewn y cyfnod hwn, os yw'n angenrheidiol, yn ymestyn y gymeradwyaeth hyd nes yr ymdrinnir â'r cais hwnnw o'r diwedd. Bydd adnewyddiad yn dod i rym o'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth gyfredol i ben.

### **DIDDYMU**

2. Yn gyffredinol, caiff awdurdod ddiddymu cymeradwyaeth os yw'r deiliad wedi methu â chydymffurfio ag un neu fwy o amodau'r gymeradwyaeth, neu fod defnydd neu strwythur y safle wedi newid ac nad yw'r safle bellach yn addas ar gyfer unrhyw seremoni.
3. Caiff y Cofrestrydd Cyffredinol gyfarwyddo awdurdod i ddiddymu cymeradwyaeth os yw o'r farn bod y gyfraith yn ymwneud â'r seremonïau ar y safle cymeradwy wedi'i thorri.
4. Pan fydd cymeradwyaeth wedi'i diddymu, rhaid i ddeiliad y gymeradwyaeth hysbysu unrhyw gyplau a oedd wedi trefnu seremoni yn y safle hwnnw ar unwaith bod hyn wedi digwydd.

### **ADOLYGIADAU**

5. Gall ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan awdurdod i wrthod cais neu adnewyddu, i ddiddymu cymeradwyaeth (ac eithrio pan gaiff ei gyfarwyddo gan y Cofrestrydd Cyffredinol) neu i atodi amodau ar wahân i'r amodau safonol.
6. Wrth benderfynu a ddylid cynnal y penderfyniad gwreiddiol, amrywio'r penderfyniad neu ddod i benderfyniad gwahanol, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgeisydd neu'r deiliad, gan nodi ei benderfyniad, y rhesymau drosto ac, os yw'n wahanol i'r penderfyniad gwreiddiol, y dyddiad y daw i rym.
7. Caiff yr awdurdod godi ffi ychwanegol am adolygiad o'i benderfyniad i wrthod cymeradwyo neu adnewyddu, ond nid yw'n berthnasol i adolygiad o benderfyniad i ddiddymu cymeradwyaeth.

### **COFRESTR SAFLEOEDD CYMERADWY**

8. Rhaid i bob awdurdod gadw cofrestr gyfredol o'r safleoedd cymeradwy yn ei ardal. Rhaid i'r gofrestr gynnwys:
  - Enw neu gyfeiriad post llawn y safle cymeradwy
  - Disgrifiad o'r ystafell(oedd) y mae'r seremonïau i ddigwydd ynddi
  - Enw a chyfeiriad deiliad y gymeradwyaeth
  - Y dyddiad cymeradwyo a'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
  - Os caiff y gymeradwyaeth ei hadnewyddu, y dyddiad adnewyddu
  - Os diddymir y gymeradwyaeth, y dyddiad y daw'r diddymiad i rym
  - Enw, cyfeiriad a swydd y person(au) sy'n gyfrifol
9. Bydd y gofrestr hon ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio yn ystod oriau gwaith arferol.
10. Hysbysir y cofrestrydd arolygol lleol, a'r cofrestrydd cyffredinol yn ddi-oed am newidiadau i'r gofrestr safleoedd cymeradwy.
11. Bydd y Cofrestrydd Cyffredinol yn dosbarthu'n rheolaidd fanylion yr holl eiddo cymeradwy i bob swyddog cofrestru, ac mae manylion hefyd ar gael ar wefan GOV.UK.

### **NEWIDIADAU AR ÔL Y GYMERADWYAETH**

12. Nid yw'n bosibl amlinellu'r holl amgylchiadau posibl lle y gall newid ddigwydd ar ôl y gymeradwyaeth. Un newid cyffredin fyddai ceisio defnyddio ystafell ychwanegol (un nad oedd wedi'i nodi ar y cynllun fel un a fwriadwyd ar gyfer seremonïau) a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i roi cymeradwyaeth o'r newydd yn dilyn yr un broses ymgeisio. Ac eithrio pan fydd newid yn unig yn neiliad y gymeradwyaeth, mae'n debygol y bydd angen cymeradwyaeth newydd yn y rhan fwyaf o achosion, yn dilyn y broses ymgeisio safonol.